CANLLAW GWEITHREDU AR GYFER ANGHYDRADDOLDEB

CYFLWYNIAD

Yn 2017, roedd 8 o bobl gyfoethocaf y blaned yn berchen ar yr un faint o gyfoeth â hanner tlotaf y ddynoliaeth. Mae hynny'n gyfystyr â nifer y bobl a fyddai'n ffitio ar fws deulawr! Rhwng 2013 a 2014, roedd cyfoeth yr 80 o bobl hyn wedi cynyddu $668 miliwn bob dydd.

Mae anghydraddoldeb economaidd yn cynyddu ac yn rhwystro'r gwaith o ddileu tlodi byd-eang. Fodd bynnag, ni fyddai ond yn cymryd gwerth 1.5% o gyfoeth cyfunol holl filiwnyddion y byd i ariannu'r diffyg yng ngwasanaethau iechyd ac addysg gwledydd tlotaf y byd. Felly, mae yna gysylltiad rhwng anghydraddoldeb a thlodi.*

PAM Y MAE'R BROBLEM HON YN DIGWYDD 'NAWR?

Fel tlodi, nid yw anghydraddoldeb cynyddol yn ddamweiniol nac yn naturiol. Yn hytrach, mae'n ganlyniad i ddewisiadau polisi bwriadol a wnaethpwyd yn yr ychydig ddegawdau diwethaf ac felly, gellir ei newid. Mae yna ddau brif beth sy'n achosi anghydraddoldeb cynyddol. Y cyntaf yw'r gred mai'r polisi gorau i lywodraethau ei ddilyn yw lleihau eu hymyrraeth yn economïau eu gwledydd. Yr enw ar hyn yw "ffwndamentaliaeth marchnad", ac mae wedi gwanhau'r rheolau a'r trethiant y mae eu hangen i reoli anghydraddoldeb, ond mae'n bolisi a ddilynir gan lawer o wledydd y byd. Yr ail yw bod y cyfoethog wedi dylanwadu ar gyfreithiau a phenderfyniadau. Mae arian yn prynu grym gwleidyddol, ac mae'r rhai mwyaf cyfoethog a grymus wedi defnyddio'r grym hwnnw i gryfhau eu manteision annheg.

Mae ymgyrchwyr yn galw ar lywodraeth y DU i roi diwedd ar hafanau trethi ar y môr trwy ymgyrchu ar Sgwâr Trafalgar Llundain. Llun: Andy Hall/Oxfam GB

BETH Y MAE ANGEN IDDO NEWID?

Yn y pen draw, mae anghydraddoldeb cynyddol yn wael i bawb. Gall llywodraethau, gyda chefnogaeth eu pobl, wrthod ffwndamentaliaeth marchnad, wrthwynebu dylanwad arbennig etholedigion pwerus, wneud rheolau a deddfau yn decach i bawb, a chymryd camau i sicrhau chwarae teg trwy gyflwyno polisïau sy'n ailddosbarthu arian a grym. Mae rhai llywodraethau, er enghraifft yr un flaenorol ym Mrasil, eisoes wedi cael peth llwyddiant yn hyn o beth.

BETH Y GALLWCH CHI EI WNEUD?

1. Hysbysu	2. Lledaenu	3. Dylanwadu
Addysgu pobl eraill am anghydraddoldeb, a'u cefnogi i feddwl yn feirniadol am y broblem hon.	Bod yn greadigol, a chodi ymwybyddiaeth yn eich ysgol a'ch cymuned.	Perswadio'r rheiny sy'n gwneud y penderfyniadau i chwarae eu rhan mewn anghydraddoldeb cynyddol heriol.